

Myfyrdod am Y Pasg gan Patrick Slattery

Sul y Palmwydd - Darllen Mathew 21, adnodau 1-10.

Dyma ddiwrnod cyntaf yr Wythnos Fawr Sanctaidd yn Jerwsalem. **“Roedd Gŵyl y Pasg yn agos”**. Roedd Iesu a’i ddisgyblion ar eu ffordd i Jerwsalem i ddathlu’r Pasg. Gwyddai Iesu beth oedd yn ei ddisgwyl yno - y groes. Yr oedd yn benderfynol o fynd i Jerwsalem i orffen ei weinidogaeth ac i barhau yn ufudd i’w Dad yn y nef. Dau beth oedd ganddo mewn golwg; cyhoeddi mai Efe oedd y Meseia, a datguddio i’r byd pa fath Feseia ydoedd. Yr oedd yr Iddewon yn disgwyl y Meseia i ddod. Y syniad oedd, y byddai’n dod fel brenin daearol, mewn rhwysg a gallu mawr gyda byddin nerthol i orchfygu gelynyon yr Iddewon. Ond aeth Iesu i mewn i Jerwsalem yn union yn y ffordd y proffwydodd Sechareia chwe chanrif cyn dyfodiad Iesu gan ddweud: **“Gwaeddych yn llawen, bobl Jerwsalem! Edrych! Mae dy frenin yn dod. Mae e’n gyfiawn ac yn achub, mae’n addfwyn ac yn marchogaeth ar asyn, ie ar ebol asyn”**. (Sechareia 9:9). Penderfynodd Iesu ei ddangos ei hun yn agored i’r genedl fel brenin; ond brenin heddychol, ar gefn asyn oedd yn fenthyg. Ond roedd yn arwr i lawer o’r dyrfa. Rhedasant i gyfarfod ef gan weiddi; **“Hosanna i Fab Dafydd! Bendigedig yw’r un sy’n dod yn enw’r Arglwydd. Hosanna yn y goruchaf!”** **“Roedd y ddinas gyfan mewn cynnwrf pan aeth Iesu i mewn i Jerwsalem, “Pwy ydy hwn?” meddai rhai. Ac roedd y dyrfa o’i gwmpas yn ateb, “Iesu, y proffwyd o Nasareth yng Ngalyilea.”** Ond disgwyl am Feseia politicaidd oedd y mwyafrif, a phan siomwyd hwy troes ei Hosanna erbyn diwedd yr wythnos i **“Groeshoelir Ef!”** Gwyddai Iesu fyddai’r dyrfa yn gweiddi hyn, ac yr oedd ganddo ddau ddewis, cerdded ymlaen neu droi yn ôl. Gwyddom beth a wnaeth; **“Ymlaen y cerddaist dan y groes a’r gwawd.”** Pa fath o groeso byddai Iesu Grist yn cael heddiw gan y dyrfa yn ein gwlad ni?

Dydd Llun – Glanhau’r Deml. Darllen Mathew 21, adnodau 12-17.

Yr oedd Jerwsalem yn gorlifo gyda phererinion Iddewig oedd wedi dod i ddathlu’r Pasg. Roedd cyntedd y Deml fel marchnad gyda stondinau i newid arian tramor y pererinion am arian lleol. Roedd mynd mawr ar werthu’r colomennod i aberthu ar allor y Deml. Cyfle gwych i wneud elw trwy fargeinio a thwylllo’r pererinion, a hyn ar dir cysegredig. Yr oedd y Deml wedi ei chysegru yn dy weddi, sef man cyfarfod rhwng dyn a Duw. I ganol swm y farchnad hon daeth Iesu Grist a gwylltiodd wrth weld y marchnatwyr yn cymryd mantais o’r pererinion wrth godi prisiau afresymol a thwylllo’r pererinion. Trowyd y stondinau drosodd a bwriodd allan y stondinwyr gan ddweud; **“Gelwir fy nhŷ i yn dy weddi, ond yr ydych chiwi yn ei wneud yn ogof lladron.”** Digwyddodd hyn mor sydyn ac annisgwyl a dychrynodd pawb..Glanhaodd y Deml. Os dychwelodd Iesu heddiw, lle byddai’n dechrau tybed?

‘Glanha dy eglwys Iesu mawr Ei grym yw bod yn lan.

Dydd Mawrth – Dysgu yn y Deml. Darllen Mathew 21, adnodau 14-17.

Dychwelodd Iesu i’r Deml ar Ddydd Mawrth. Roedd pobl ddall a rhai cloff yn dod ato, ac roedd yn eu hiachau nhw. Ond roedd y swyddogion wedi gwylltio’n lan wrth weld y gwyrthiau rhyfeddol roedd yn eu gwneud. Daeth y swyddogion ato i’w holi am ei awdurdod. Roedd Iesu yn niwsans ac roeddynt yn treio i gael gwared ohono. Roeddent yn bwriadu cael gwared ohono cyn Gŵyl y Pasg ...Mae Iesu Grist yn niwsans i lawer o bobl heddiw. Mae’n ymyrryd ar ei bywydau.

‘Wrth dy draed o ddysg i mi beth wyf fi, a phwy wyt Ti.’

Dydd Mercher – Yr eneinio ym Methania. Darllen Mathew 26, adnodau 6-13.

Derbyniodd Iesu a’i ddisgyblion gwahoddiad am swper yn gartref dyn o’r enw Simon ym mhentref Bethania yn ymyl Jerwsalem. Yn nhŷ Simon y nos hon digwyddodd rhywbeth i Iesu a chymhellodd ef i ddweud, **“Y bydd son amdani tra pregethir yr efengyl”**. Mae’r hanes yn gyfarwydd inni - Daeth wraig ddiarth yno heb wahoddiad, yn torri ar draws y swper. Daeth at Iesu gyda blwch o bersawr drud a thywallt y persawr ar ei ben. Roedd y disgyblion yn wyllt oherwydd y gwastraff. **“Am wastraff!”** medden nhw. **“Gallai rhywun fod wedi gwerthu’r persawr yna am arian mawr, a rhoi’r cwbl i bobl dlawd”**. Onid dyna oedd Iesu wedi dysgu’r

disgyblion? Ond amddiffynnodd Iesu'r wraig. Cyfiawnhaodd ei gweithred am dri rheswm. 1. Am ei bod yn weithred brydferth. - Rhoddodd ei gorau i Dduw.2. Am ei bod yn weithred amserol- Paratoi Iesu am ei farwolaeth ar y groes. 3. Am ei bod yn weithred nas anghofir. Rhoddir hi ochr yn ochr â'r Efengyl, am mai cariad yw calon y naill a'r llall. Nid yw'n syndod i Iesu ddweud; **“Pa le bynnag y pregethir yr Efengyl yma yn yr holl fyd, adroddir hefyd yr hyn a wnaeth hon, er cof amdani”**.

Dydd Iau - Y Swper Olaf . Darllen Mathew 26, adnodau 17-25.

Dydd Iau oedd diwrnod cyntaf Gŵyl y Bara Croyw, gŵyl sy'n blaenori'r Pasg. Rhaid i Iesu a'i ddisgyblion paratoi am Wledd y Pasg. Y peth olaf a ddymunai'r Iesu ei gael cyn i'w elynion osod eu llaw arno oedd cyfarfod tawel gyda'i ddisgyblion a chyfle i gadw'r Pasg gyda'i gilydd . Yr oedd cyfeillion i Iesu yn byw yn Jerwsalem ac awgryma'r hanes ei fod wedi trefnu ymlaen llaw ag un ohonynt i ddarparu ystafell ar gyfer y Swper Olaf. Yn ystod y swper da ni'n clywed bod bradychwr yn eu plith. Nid oedd hyn yn annisgwyl i Iesu oherwydd fe wyddai beth oedd meddyliau pawb. Roedd Iesu'n ymwybodol o'r frwydr fawr o'i flaen, gwewyr Gethsemane, trallod treial, cystudd croes. Brad Jwdas oedd y weithred gyntaf i gyhoeddi dechrau'r diwedd i Iesu Grist Siom mawr i'r disgyblion oedd clywed bod un o'i phlith yn fradwr. **“Roedden nhw'n drist iawn, ac yn dweud wrtho, un ar ôl y llall, “Meistr, dim fi ydy'r un, nage?”**

Wedi'r swper aethant i Gethsemane. Roedd Jwdas wedi gadael y cwmni,- ar ei ffordd i fradychu Iesu oedd Jwdas. Tra oedd Iesu'n sgwrsio gyda'i ddisgyblion daeth Jwdas yn arwain milwyr ato. Er mwyn iddynt adnabod Iesu yn y tywyllwch roedd Jwdas wedi dweud wrth y milwyr y byddai'n rhoi cusan cyfarch i Iesu. Felly arestiwyd Iesu a chymerodd ef i Caiaffas yr archoffeiriad. Dyma awr fawr Jwdas y Bradwr. Mor bwysig oedd Jwdas yn arwain ei fyddin bechadurus i ddal Iesu Grist Ond nid oedd pwysigrwydd Jwdas yn para am hir. Roedd yn edifar am beth wnaeth e, ac fe grogodd ei hun. Rydym ni yn euog o fradychu Iesu Grist bob tro rydym yn ceisio ei addasu i'n ffordd ni o fyw.

Heddiw mewn oes aml- hil ac aml- crefydd sy'n achosi casineb a thrais yn y byd. Mae cymaint o bobl yn eisiau cael gwared â chrefydd a Christnogaeth. Gofala rhag bod difaterwch ni heddiw yn bradychu Iesu Grist. Mae'n rhaid i ni bara yn ffyddlon i Grist 'i eglwys.

6. Dydd Gwener – Y Croeshoeliad. Darllen Mathew. 27 adnodau 37-61.

Bore Gwener y Groglith cymerodd Iesu o flaen y Sanhedrin. Roedd y Sanhedrin yn ceisio camdystiolaeth yn erbyn Iesu, er mwyn ei roi i farwolaeth, ond ni chawsant ddim ac felly rhaid cymryd ef at y Rhaglaw Rhufeinig, Pontius Peilat. **“Dyma Peilat yn dweud wrtho, “...ti, ydy brenin yr Iddewon, ie?”...”Ti sy'n dweud,” atebodd Iesu. (11.)** Ond pan ddaeth yr Iddewon ymlaen gyda'u cyhuddiadau, nid atebodd Iesu ddim,, a Pheilat yn rhyfeddu. Mae'r hyn sy'n dilyn yn awgrymu bod Peilat yn cydymdeimlo a'r Iesu, ac eto nid oedd yn fodlon dangos hyn yn agored am ei fod yn ofni'r Iddewon. Arweinydd gwan oedd Peilat.

Adeg y Pasg roedd hi'n arferiad gan y llywodraethwr i ryddhau un carcharor - un roedd y dyrfa'n ei ddewis. Ar y pryd, roedd un carcharor roedd pawb yn gwybod amdano- dyn o'r enw Barabbas(15.) Felly, dyma Peilat yn gofyn y dyrfa; **“Pa un o'r ddau dych chi am i mi ei ollwng yn rhydd? Barabbas? Neu Iesu, yr un sy'n cael ei alw “Y Meseia.”** Atebodd y dyrfa yn unfrydol, Barabbas. Dyma syndod a siom i Beilot. Gofynnodd Peilat , **“Beth ddw i i'w wneud gydag Iesu?”** Atebodd y dyrfa yn uwch , **“Croeshoelir ef!”**

“Pam?” meddai Peilat, **“Beth mae e wedi'i wneud o'i le?”** Ond dyma'r dyrfa'n gweiddi'n uwch, byth. **“Croeshoelir ef!”** Dyma Peilat yn gweld fod dim pwynt parhau am fod y dyrfa'n dechrau cynhyrfu. Felly galwodd am ddysgl o ddŵr a golchodd ei ddwylo o flaen y dyrfa, a dweud; **“Yr wyf fi'n ddiuog o waed y dyn hwn; chwi fydd yn gyfrifol.”** Ateb y dyrfa oedd; **“Boed ei waed arnom ni ac ar ein plant.”** Mynnodd y dyrfa i ryddhau Barabbas a dedfrydwyd Iesu i'r groes.

Pwy fyddai'r dyrfa yn dewis ei ryddhau heddiw, Iesu neu Barabbas?

Mae yna dau bŵer cryf yn y bydDuw a Satan..... Tybed pwy fyddwch chi'n ei ddewis?

**Rwy'n dewis Iesu a'i farwol glwy' Yn frawd a Phriod imi mwy
Ef yn arweinydd, Ef yn ben, I'm dwyn o'r byd i'r nefoedd wen.**

**Dewisais Ef, ac Ef o hyd ddewisaf mwy tra fwy'n y byd;
Can' gwynfyd ddaeth i'm henaid tlawd cael brenin nefoedd imi'n Frawd.**

Wrth i ninnau fyfyrion am y pethau hyn, cwestiwn pwysig i feddwl drosto yw; i ba raddau ydym ni yn barod i ddilyn Iesu Grist heddiw? Beth yw ein haberth ni am y croeshoeliad?

Os yw'r Pasg yn golygu unrhyw beth i ni fel Cristnogion ,mae angen inni ystyried y pethau hyn o ddifrif.

Dydd Sadwrn – Y Bedd. Darllen Mathew 27, adnodau 57-66.

Awgryma Mathew fod Joseff o Arimathea wedi dod yn ddisgybl i Grist yn diweddar. Beth bynnag am hynny, mae'n dangos ei edmygedd o Grist a'i gondemniad o'r croeshoeliad trwy fentro mynd at Peilat a gofyn am gorff Iesu. Mae'n trin y corff gyda pharch mawr a'i gladdu yn ei fedd ei hun. Golygai hyn yn gost fawr i Joseff. Tystiai ef am gyfiawnder Iesu. Mae Mair Magdalen a'r Fair arall, trwy aros wrth y bedd amser y claddu, yn mynegi eu teyrngarwch hwythau. Ar fore'r Atgyfodiad roedd Duw yn anrhydeddu eu teyrngarwch.

Sul Y Pasg – Yr atgyfodiad. Darllen Ioan 20, adnodau 1-23.

Wedi tristwch ac anobaith y groes a'r bedd fe ddaeth wawr y trydydd dydd gydag atgyfodiad Iesu tros angau a'r bedd. Ciliodd y tywyllwch a llewyrchodd goleuni llachar ei fuddugoliaeth. Ac yn ei fuddugoliaeth ef y mae buddugoliaeth i ninnau . O ganlyniad gallwn ganu heddiw a phob dydd o'n bywydau yn llawen;

**Yr Iesu atgyfododd yn fore'r trydydd dydd;
'n ôl talu'n llwyr ein dyled y Meichiau ddaeth yn rhydd:
Cyhoedder heddiw'r newydd i bob creadur byw ,
er marw ar Galfaria fod Iesu eto'n fyw**

Ond pam fod angen atgyfodiad? Oherwydd bod Iesu yn berffaith nid oedd gan farwolaeth hawl arno, oherwydd cyflog pechod yw marwolaeth. Nid oedd Iesu wedi pechu ac nid oedd wedi etifeddu pechod gwreiddiol. Felly atgyfododd yn gorfforol. Mae'r atgyfodiad felly yn brawf fod gwaith achubol Iesu Grist yn ddilys ac yn effeithiol. A thrwy ei farw a'i atgyfodiad ef y mae bywyd tragwyddol i ni.

Gweddi.

Diolchwn i Ti am neges y Pasg, sef bod cariad yn drech na chasineb, a bywyd yn drech nag angau. Cofiwn am ein byd yn ei hangen o iachâd a rhyddhad o'r firws creulon a pheryglus sydd yn 'sgubo trwy wledydd y byd. Diolch am bawb sy'n gweithio mor galed i atal y firws ac yn peryglu eu hunain wrth wneud hyn. O Arglwydd, bywha dy waith iachusol yn y byd heddiw gan ddechrau yn fy mywyd i. A par fod gobaith y Pasg am fywyd newydd ac iach yn cyrraedd y byd i gyd yn fuan iawn. Dyro dy gymorth i mi i gofio;

O Iesu croeshoeliedig, Gwaredwr dynol-ryw, ti yw ein hunig obaith tra bom ar dir y byw;
dan feichiau o ofalon sy'n gwneud ein bron yn brudd mae d'enw llawn diddanwch,
yn troi ein nos yn ddydd.

Patrick Slattery.

